

At: Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau
Democrataidd

Dyddiad: 26 Medi 2022

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, DYDD GWENER, 30 MEDI 2022 am 10.00 am TRWY CYFRWNG FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 PENODI CADEIRYDD I'R CYFARFOD

Penodi Cadeirydd o grŵp anweithredol (grŵp di-Gabinet) ar gyfer cyfarfod heddiw o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.'

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022 – 2023.

4 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 3 - 4)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

5 MATERION BRYD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

6 COFNODION (Tudalennau 5 - 8)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2022 (copi ynghlwm).

7 AROLWG AMSERIAD CYFARFODYDD 2022 (Tudalennau 9 - 16)

Ystyried adroddiad sy'n amlinellu'r gofynion statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y 'Mesur') mewn perthynas ag arolygu aelodau etholedig ar amseriad a lleoliad cyfarfodydd y Cyngor (copi ynghlwm).

8 HYFFORDDIANT AELODAU (Tudalennau 17 - 20)

Ystyried adroddiad sy'n darparu diweddariadau a gwybodaeth am yr anwythiad a'r hyfforddiant wedi'r etholiad; ac ar hyfforddiant a datblygiad aelodau (copi ynghlwm).

9 RÔL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD (Tudalennau 21 - 26)

I ystyried adroddiad sy'n amlinellu dyletswyddau a phwerau statudol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm).

10 GOFAL PERSONOL A DIOGELWCH I AELODAU (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried adroddiad ar wybodaeth am ofal personol a diogelwch ar gyfer aelodau etholedig lleol (copi ynghlwm).

11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (Tudalennau 31 - 32)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (copi ynghlwm).

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Ellie Chard
Karen Edwards
Chris Evans
Hugh Evans
Justine Evans

Martyn Hogg
Delyth Jones
Diane King
Cheryl Williams
Elfed Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd trwy gynhadledd fideo, Dydd Gwener, 28 Ionawr 2022 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Rachel Flynn, Hugh Irving, Gwyneth Kensler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Graham Timms a/ac Joe Welch

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Gweinyddwyr Pwyllgorau (SJ (Host) RTJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (RGD) wrth y pwyllgor fod y Cadeirydd wedi anfon ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod, nid oedd is-gadeirydd wedi'i benodi ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Felly gofynnodd y RGD i'r pwyllgor benodi cadeirydd am gyfnod y cyfarfod.

Cynigiodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler y Cynghorydd Rhys Thomas, eiliwyd gan y Cynghorydd Hugh Irving.

Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill, felly penodwyd y Cynghorydd Rhys Thomas yn gadeirydd am gyfnod y cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bob Murray a Christine Marston.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2021.

PENDERFYNWYD: - *derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2021 fel cofnod gwir a chywir.*

5 AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH - CYNLLUN GWEITHREDU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (PGCAD) y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) atgoffodd y PGCAD yr aelodau fod y Cyngor wedi cymeradwyo Datganiad Amrywiol y Cyngor ar 7 Medi 2021..

Mae gan CLILC Raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth uchelgeisiol i geisio sicrhau bod siambrau cynghorau yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau meant yn eu gwasanaethu. Maent wedi bod yn ystyried ffyrdd o sicrhau mwy o amrywiaeth ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

Sefydlwyd gweithgor trawsbleidiol CLILC er mwyn edrych ar dangynrychiolaeth ehangach mewn democratiaeth. Lluniodd adroddiad yn nodi rhwystrau l gyfranogiad a ellid eu crynhoi'n fras fel::

- Ymrwymiad amser ac amseroedd cyfarfodydd;
- Diwylliant gwleidyddol a sefydliadol;
- Cyfrifoldebau gofalu plant a chyfrifoldebau gofalu eraill;
- Beirniadaeth gan y cyhoedd a chamdriniaeth ar-lein;
- Tâl ac effaith ar gyflogaeth; a
- Diffyg modelau rôl amrywiol a chyfnod mewn swydd

Arweiniodd yr PGCAD y pwyllgor drwy'r Cynllun Gweithredu a ddangoswyd yn Atodiad 2.

- Lledaenu adnoddau addysgol Llywodraeth Cymru i gyd-fynd ag ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed yng Nghymru, bu addysg yn ymwneud â'r mater i sicrhau bod plant yn ymwybodol o rôl Cynghorwyr, drwy gydol eu haddysg.
- Roedd gan CLILC wefan ar gyfer bod yn gynghorydd ac yn amlygu pwysigrwydd bod yn Gynghorydd Sir; byddai gan bob awdurdod yng Nghymru ei fersiwn. Byddai Cyngor Sir Ddinbych yn rhyddhau eu fersiwn diweddaraf eu hunain yn fuan ers yr etholiad diwethaf
- Elfen arall oedd cynyddu ymgysylltiad â'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o rôl a gweithgareddau'r Cyngor a Chynghorwyr.
- Roedd sioeau teithiol yn cael eu trefnu i sicrhau bod pobl sydd â diddordeb mewn bod yn Gynghorwyr yn ymwybodol o'r gwaith a fyddai'n ymwneud â'r rôl.
- Cyhoeddi Cyfansoddiad y Cyngor. Roedd y canllaw Cyfansoddiad yn ofyniad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac roedd hwn yn cael ei ddatblygu, ochr yn ochr â chanllaw iaith glir.
- Byddai cyfarfodydd yn parhau i gael eu gweddarledu, a oedd yn ddull da o ymgysylltu â'r gymuned.
- Dywedodd CLILC y gallai pob grŵp gwleidyddol enwebu Arweinwyr Amrywiaeth.
- Elfen arall oedd y rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth gynhwysfawr sydd ar gael trwy amrywiaeth o lwybrau sydd ar gael i aelodau i'w cefnogi yn eu rôl.

- Byddai gofyn i Grwpiau Gwleidyddol roi'r cyfle i fentora / cysgodi ar gyfer Aelodau Etholedig newydd.
- Rhoddwyd cyfleoedd i aelodau gynnal Adolygiadau Datblygiad Personol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn orfodol.
- Ni fyddai angen cyhoeddi cyfeiriadau cartref mwyach, fodd bynnag byddai angen cyfeiriad swyddogol.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i unigolion weithio mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i gael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith sy'n amddiffyn eu lles a'u lles ac yn eu galluogi i reoli unrhyw berthnasoedd gofal / dibyniaeth. Ystyriwyd bod hyn yn her fawr, fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Ffyrdd Newydd o Weithio ar gyfer cyfarfodydd aelodau i alluogi cyfarfodydd hybrid llawn sy'n hwyluso presenoldeb o leoliad arall.
- Amseroedd cyfarfodydd Adolygu i gael mwy o hyblygrwydd i weddu i aelodau, roedd yr adolygiad yn heriol. Byddai angen trafod y sefyllfa mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Mwy o barch a chefnogaeth i'r rhai sy'n sefyll dros swyddi etholedig ac yn eu sicrhau; roedd dwy elfen i hyn: Hyrwyddo dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hybu safonau uchel o ymddygiad.
- Pwyllgor Safonau i fonitro cydymffurfiad arweinwyr grŵp mewn perthynas â'r ddyletswydd a darparu hyfforddiant.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn nodi ac yn cymeradwyo'r cynllun gweithredu drafft yn Atodiad 2.

6 RÔL CEFNOGWR AMRYWIAETH

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (PGCAD) yr adroddiad ar Rôl Hyrwyddwr Amrywiaeth (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) a oedd yn ymwneud â'r cynnig i greu rôl Hyrwyddwr Amrywiaeth.

Roedd rôl, pwrpas a gweithgareddau'r hyrwyddwr amrywiaeth fel a ganlyn –

1. Gweithredu fel arweinydd strategol cryf ar godi a hybu materion amrywiaeth
2. Dadlau, cefnogi ac amddiffyn pryderon, materion ac anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig yn ardal y Cyngor.
3. Sefydlu perthynas waith da gyda swyddogion ac eraill i hybu strategaethau, polisiau a chynlluniau.
4. Ennill dealltwriaeth o faterion amrywiaeth a chydaddoldeb a rhwymedigaethau statudol y Cyngor, a lle bo angen esbonio'r dyletswyddau hynny.
5. Ymrwymo i fynychu digwyddiadau a hwylusir yn genedlaethol (fel y darperir gan CLILC) ac ystyried gwneud eich cysylltiadau rhanbarthol, trawsffiniol a chenedlaethol eich hun yn ôl yr angen.
6. Sicrhau bod amrywiaeth a chydaddoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth yng ngwaith y Cyngor. Fel llefarydd i gadw materion ar flaen y gad; codi ymwybyddiaeth ymhlith cyd-aelodau etholedig ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chydaddoldeb a goblygiadau'r rhain i'r Cyngor.

7. Hyrwyddo cyfranogiad, cyfranogiad ac ymgysylltiad pobl o gefndiroedd amrywiol wrth gynllunio ac adolygu pob agwedd ar waith awdurdod lleol, gan gynnwys darparu gwasanaethau a datblygu polisi.
8. Ystyried a thynnu sylw at rôl y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wrth gyflwyno atebion.
9. Mynychu hyfforddiant a sesiynau briffio rheolaidd.
10. Bod yn ymwybodol o effaith esblygol newidiadau cenedlaethol a deddfwriaethol.
11. Lle bo angen, ar y cyd â'r Aelod Arweiniol perthnasol (lle bo'n briodol) a thîm Cyfathrebu'r Cyngor, ymgysylltu â'r cyfryngau.
12. Ystyried rôl Hyrwyddwyr eraill a'u heffaith ar y rôl hon ac a ddylid cydweithio lle bo'n briodol.

Yn dilyn cyflwyniad gan yr PGCAD trafododd yr aelodau'r canlynol—

- Cytunodd y pwyllgor ar safle hyrwyddwr amrywiaeth; teimlwyd y byddai'r mater yn elwa o gael ei gyflwyno i'r Cyngor presennol ac y dylid dewis y pencampwr yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai.
- Cadarnhaodd yr HLHDS y byddai'r pencampwr yn cael ei ethol yn ystod y Cyngor nesaf, ac y byddai'n cael ei benodi am gyfnod y Cyngor.
- Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch adrodd yn ôl gan hyrwyddwyr, ac a ellid gwneud unrhyw beth i gael gwybodaeth gan yr hyrwyddwyr trwy gydol eu tymor fel pencampwyr.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r diffiniad yn yr atodiad i'r adroddiad o rôl Hyrwyddwr Amrywiaeth.

7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w hystyried.

Roedd y cyfarfod nesaf o fewn y cyfnod cyn yr etholiad, oherwydd bod cyfarfod heddiw wedi'i gynnal, y dylid canslo'r cyfarfod ar 25 Mawrth. Cytunodd yr holl aelodau oedd yn bresennol i'r cyfarfod gael ei ganslo.

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau'n nodi'r diweddariad llafar.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am.

Adroddiad i'r	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y cyfarfod	30 Medi 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Julie Matthews / Steve Price
Awdur yr adroddiad	Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Teitl	Arolwg Amser Cyfarfodydd 2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y 'Mesur') i gynnal arolwg i geisio barn aelodau etholedig ynghylch amser a lleoliad cyfarfodydd y Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Un o nodau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yw hyrwyddo a chefnogi aelodaeth awdurdodau lleol. Gall yr amseroedd pan gaiff cyfarfodydd eu cynnal fod yn ffactor allweddol o ran galluogi aelodau presennol y Cyngor i'w mynychu a gallai hefyd ddylanwadu ar benderfyniad darpar ymgeiswyr i ynghylch sefyll am etholiad. O dan y Mesur dylai awdurdodau lleol arolygu eu haelodau o ran yr amseroedd a'r lleoliadau a ffeirir ar gyfer cyfarfodydd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar y trefniadau i arolygu aelodau ynghylch amser a lleoliad cyfarfodydd.

4. Manylion yr adroddiad

Y Cefndir i Amseriad Cyfarfodydd

- 4.1 Mae'r Canllawiau Statudol i'r Mesur yn nodi y dylid cynnal cyfarfodydd awdurdod lleol ar adegau, cyfnodau ac mewn lleoliadau sy'n gyfleus i'w haelodau a chyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl gan ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- 4.2 Ar hyn o bryd mae cyfarfodydd y Cyngor a'r prif gyfarfodydd pwyllgor yn dechrau yn y bore. Mae nifer o gyfarfodydd mewnol lefel-aelodau yn dechrau yn y prynhawn, ac mae un fforwm mewnol (Grŵp Ardal Aelodau Prestatyn a Gallt Melyd) yn dechrau ei gyfarfodydd gyda'r nos. Penderfynwyd ar y patrwm presennol yn dilyn arolygon aelodau yn 2013 a 2018 ac yn sgil argymhellion grŵp tasg a gorffen lefel-aelodau yn 2016.

Lleoliad Cyfarfodydd

- 4.3 Mewn perthynas â lleoliadau, cadarnhaodd yr arolygon blaenorol mai Neuadd y Sir, Rhuthun yw'r lleoliad a ffefrir gan y rhan fwyaf o'r aelodau gyda llawer yn nodi bod lleoliad canolog yr adeilad yn y sir yn fanteisiol. Mae cyfleusterau cyfarfod Neuadd y Sir hefyd yn addas ac yn hygyrch ar gyfer cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd. Gwneir rhywfaint o ddefnydd hefyd o'r ystafelloedd cyfarfod yn swyddfeydd y Cyngor yn Nhŷ Russell, y Rhyl a Chaledfryn, Dinbych.
- 4.4 Yn sgil y pandemig Covid-19 datblygodd ffyrdd newydd o weithio, yn cynnwys symudiad tuag at gyfarfodydd rhithiol. I allu cynnal cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor rhithiol roedd deddfwriaeth frys yn angenrheidiol a daeth hon yn ddeddfwriaeth barhaol yn ddiweddarach o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd hyn yn gofyn bod gan awdurdodau lleol drefniadau i alluogi aelodau nad ydynt yn yr un lle i fynychu'r cyfarfodydd hyn.
- 4.5 Y llynedd ystyriodd aelod o'r Grŵp Ffyrdd Newydd o Weithio sut y dylai aelodau gynnal cyfarfodydd y dyfodol a pha offer TGCh fyddai ei angen arnynt i wneud hynny. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd gynigion y gweithgor ym mis Tachwedd 2021 ac fe'u mabwysiadwyd gan y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2021. Wrth ystyried a ddylai'r cyfarfodydd ffurfiol, cyhoeddus fod yn gwbl rhithiol neu'n hybrid, penderfynodd y Cyngor ar gyfarfodydd hybrid

(aelodau'n gallu dewis mynychu'n bersonol neu o bell). I ddibenion effeithlonrwydd (arbed amser teithio er enghraifft) ac am resymau amgylcheddol, penderfynodd y Cyngor y dylai cyfarfodydd mewnol fel y cyfarfodydd Ardal Aelodau er enghraifft, yn gyffredinol fod yn gyfarfodydd rhithiol.

Yr Arolwg

4.6 Mae'r arolwg sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 ar ffurf drafft a gellir ei newid ar ôl derbyn sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor. Caiff fersiwn terfynol yr arolwg ar-lein ei anfon at holl aelodau etholedig a chyfetholedig prif bwyllgorau'r Cyngor gyda'r canlyniadau a'r sylwadau'n cael eu hadrodd i'r Cyngor llawn am benderfyniad ar y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau'r Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd o adnoddau ystafelloedd, rhithiol a hybrid i gynnal ei gyfarfodydd ac mae'r rhain yn ddigon hyblyg i alluogi gwneud newidiadau i'r trefniadau cyfarfodydd. Gallai opsiynau o ran pryd a lle y cynhelir cyfarfodydd fod â goblygiadau o ran cost neu amser staff yn dibynnu ar faint a natur yr opsiynau.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Adroddiad ymgynghorol ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw hwn. Bydd yr holl aelodau'n cael gwahoddiad i ateb yr arolwg ar amser a lleoliad cyfarfodydd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ddim yn angenrheidiol ar gyfer yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Gall trefniadau cyfarfodydd fod yn ffactor allweddol o ran galluogi aelodau presennol y Cyngor i'w mynychu a gallant hefyd ddylanwadu ar benderfyniad darpar ymgeiswyr i ynghylch sefyll am etholiad. neu beidio.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Adran 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Arolwg Amseriad Cyfarfodydd y Cyngor Drafft

Un o nodau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yw hyrwyddo a chefnogi aelodaeth awdurdodau lleol. Ystyrir bod yr amseroedd pan gynhelir cyfarfodydd y cyngor yn arwyddocaol dros ben gan y gallai effeithio ar ystyriaethau a phenderfyniadau unigolion ynghylch sefyll am etholiad neu beidio. O dan y Mesur dylai awdurdodau lleol arolygu eu haelodau o ran yr amseroedd a'r lleoliadau a ffefrir ar gyfer cyfarfodydd a byddai'n cael ei werthfawrogi pe gallai'r cynghorwyr gwblhau'r arolwg erbyn [DYDDIAD].

Enw:

**(Nodwch y bydd ymatebion i'r cwestiynau a'r sylwadau yn cael eu gwneud yn ddi-enw).*

Cwestiwn 1:

A fyddai'n well gennych gyfarfodydd (a) yn y bore; (b) yn y prynhawn (yn dechrau rhwng 2pm a 4pm) neu (c) gyda'r nos (yn dechrau ar ôl 5pm). Rhowch unrhyw resymau dros yr amseroedd sydd orau gennych (er enghraifft rhesymau teuluol, gwaith, ymrwymadau cymdeithasol)

Cwestiwn 2:

O ran yr amser yr ydych wedi'i nodi fel yr un a fyddai orau gennych, ydych chi'n ffafrio'r amser hwn ar gyfer (a) pob cyfarfod pwyllgor (b) dim ond y pwyllgorau yr ydych yn aelod ohonynt neu (c) dim ond rhai pwyllgorau penodol. Os ateboch 'c', dwedwch pa bwyllgorau a pham.

Cwestiwn 3:

Fyddai'n well gennych weld amser cyfarfodydd yn newid yn rheolaidd? Os byddai, fyddai hynny ar gyfer (a) pob pwyllgor neu (b) rhai pwyllgorau yn unig? Os ateboch 'b' dywedwch pa bwyllgor(au) a pham.

Cwestiwn 4:

Oes yna unrhyw amseroedd pan fydddech chi'n ei chael yn arbennig o anodd mynychu cyfarfod? Os oes, dywedwch pa amseroedd fyddai'n anodd i chi a'r rhesymau dros hyn (er enghraifft ymrwymïadau teuluol, gwaith neu gymdeithasol).

Cwestiwn 5:

Cwestiwn 7 – Oes gennych chi leoliad (lleoliadau) yr ydych yn ei ffafrio ar gyfer cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb? Os oes, dywedwch pa leoliad y bydddech yn ei ffafrio.

Cwestiwn 6:

Ydi hi'n well gennych chi bod y cyfarfodydd yr ydych y eu mynychu yn (a) hybrid neu (b) wyneb yn wyneb neu (c) yn gyfan gwbl o bell? Rhowch eich rhesymau:

Cwestiwn 7:

Ydych chi'n cael unrhyw anawsterau o ran mynychu cyfarfodydd o bell? Os ydych, eglurwch beth yw'r anawsterau hyn a pha gefnogaeth yr ydych yn teimlo fyddai o help i chi?

Cwestiwn 8:

Ydych chi'n cael unrhyw anawsterau o ran mynychu cyfarfodydd sy'n rhai wyneb yn wyneb yn unig? Os ydych, eglurwch beth yw'r anawsterau hyn a pha gefnogaeth yr ydych yn teimlo fyddai o help i chi?

Adroddiad i'r	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y cyfarfod	30 Medi 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Cynghorydd Julie Matthews / Steve Price
Awdur yr adroddiad	Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Teitl	Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad a gwybodaeth ar ymsefydlu a hyfforddi aelodau ar ôl eu hethol a hyfforddiant a datblygiad aelodau yn gyffredinol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Hysbysu'r Pwyllgor a cheisio ei farn ar gynnwys a chyfeiriad y rhaglen hyfforddiant a datblygiad. Bydd safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i'r Cyngor llawn er mwyn i'r Cyngor benderfynu ar drefniadau'r dyfodol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad aelodau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ar y rhaglen hyfforddiant a datblygiad aelodau.

4. Manylion yr adroddiad

Ymsefydlu ar ôl etholiad

4.1. Cychwynnodd rhaglen o ymsefydlu, hyfforddiant a datblygiad yn syth ar ôl etholiadau'r Cyngor ym mis Mai. Mae'r sesiynau a gyflwynwyd hyd yma wedi cynnwys ymsefydlu aelodau newydd ac aelodau sydd wedi dychwelyd drwy fynd dros y ddarpariaeth TGCh, ymglyfarwyddo â gwasanaethau a gwybodaeth i helpu aelodau i ymgymryd â rhai rolau penodol (er enghraifft hyfforddiant ar y

Cod Ymddygiad, eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio neu weithredu fel 'Rhiant Corfforaethol')

E-Ddysgu

4.2 Mae datblygiad adnoddau e-ddysgu ar gyfer yr aelodau wedi'i gydlynu'n genedlaethol gan Rwydwaith Swyddogion Cymorth Aelodau ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae plattform e-ddysgu cenedlaethol wedi'i ddatblygu at ddefnydd awdurdodau lleol.

4.3 Nid yw e-ddysgu wedi bod ar gael i aelodau o'r blaen oherwydd sawl problem yn ymwneud ag addasrwydd y plattform e-ddysgu, argaeledd modiwlau wedi'u diweddarau a chydweiddoldeb â dyfeisiadau symudol a ddefnyddiwyd yn ystod y Cyngor diwethaf. Y modiwlau e-ddysgu sydd ar gael yn awr yw:

1. Cadeirio Cyfarfodydd yn Effeithiol
2. Arweinyddiaeth Gymunedol a Gwaith Achos
3. Llywodraethu Corfforaethol
4. Rhianta Corfforaethol
5. Craffu Effeithiol
6. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
7. Moeseg a Safonau
8. Llywodraethu, Archwilio a Rheoli Risg
9. Cyflwyniad i Drwyddedu
10. Cyflwyniad i Gynllunio
11. Cyllid Llywodraeth Leol
12. Cynllunio ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.
13. Siarad Cyhoeddus a Gweithio gyda'r Cyfryngau
14. Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Cymdeithasol
15. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
16. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
17. Safonau'r Gymraeg

Hyfforddiant Gorfodol

4.4 Yn 2018 penderfynodd y Cyngor y byddai'r cyrsiau hyfforddiant canlynol yn orfodol:

- Y Cod Ymddygiad - unwaith y tymor
- Cynllunio - dau ddigwyddiad hyfforddi bob blwyddyn (ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio).
- Trwyddedu - dau ddigwyddiad hyfforddi bob blwyddyn (ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu).
- Diogelu'r Cyhoedd a GDPR - hyfforddiant blynyddol sy'n cael ei ddiwygio unwaith y tymor
- Cyllid Llywodraeth Leol - unwaith y tymor
- Diogelu - unwaith y tymor
- Rhianta Corfforaethol - unwaith y tymor

Adolygiadau Datblygiad Personol

4.5 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gofyn bod Adolygiad Datblygu Personol (ADP) ar gael i bob cynghorydd. Mae ADP yn ffordd i aelodau a'r Cyngor asesu anghenion datblygu personol aelod gyda'i gilydd. Byddai'r adolygiad wedi'i osod yng nghyd-destun rôl yr aelod, eu dyheadau ar gyfer yr hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni, disgwyliadau'r awdurdod ac anghenion y gymuned. Gallai'r cyfweiliad gynnwys adolygiad o'r hyfforddiant a'r datblygiad a gafodd yr aelod dros y flwyddyn flaenorol.

4.6 Nid yw ADP yn arfarniad o berfformiad aelod ond yn hytrach yn fodd o'u cefnogi a'u datblygu. Nid oes gorfodaeth ar aelodau i gael ADP.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw'r adroddiad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol er y bydd aelodau etholedig sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n effeithiol yn cyfrannu at berfformiad y Cyngor ar lefelau strategol, datblygu polisi a gwneud penderfyniadau.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Darperir y rhan fwyaf o'r cynllun hyfforddi gan Swyddogion y Cyngor. Nid yw hyn yn gofyn am arian ychwanegol ond mae yn gofyn am amser swyddogion a bydd hynny'n ffactor ym maint a chymhlethdod y rhaglen hyfforddi y gellir ei darparu. Mae angen hwyluso rhai meysydd hyfforddiant yn allanol gyda chostau'r hyfforddiant hwn ddod o'r gyllideb hyfforddiant aelodau.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Caiff materion cysylltiedig â hyfforddiant a datblygiad aelodau eu hadrodd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Cyngor llawn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nod hyfforddiant a datblygiad yw rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar aelodau i gyflawni gwahanol rolau'r cynghorydd a'r aelod lleyg modern. Heb yr hyfforddiant a'r datblygiad priodol mae mwy o risg hefyd y ceir cwynion ac y bydd penderfyniadau'n cael eu herio'n llwyddiannus.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Adroddiad i'r	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y cyfarfod	30 Medi 2022
Swyddog Arweiniol	Steve Price
Awdur yr adroddiad	Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Teitl	Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu dyletswyddau a phwerau statudol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i oruchwylio gwasanaethau democrataidd y Cyngor. Cyfarfod heddiw yw cyfarfod cyntaf y pwyllgor ers etholiadau'r Cyngor ym mis Mai, ac felly mae'n briodol ystyried rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi dyletswyddau a phwerau statudol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae'n rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor gwasanaethau democrataidd er mwyn:

(a) dynodi pennaeth statudol y gwasanaethau democrataidd. Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yw'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Steve Price, ac mae crynodeb o swyddogaethau'r rôl statudol i'w weld yn atodiad 1;

(b) adolygu digonolrwydd darpariaeth yr awdurdod o staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a

(c) llunio adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod yn ymwneud â darpariaeth o'r fath.

- 4.2. Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sydd i benderfynu sut i gyflawni'r swyddogaethau hynny.
- 4.3. Penodir y cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor gan y Cyngor llawn, a gall gynnwys dim mwy nag un aelod o'r Cabinet. Penderfynodd y Cyngor o'r blaen na fyddai aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cabinet. Ni all cadeirydd y pwyllgor fod yn aelod o grŵp gweithredol (y Cabinet). Yn Sir Ddinbych mae hyn yn golygu na all y cadeirydd fod o grwpiau Llafur na Phlaid Cymru.
- 4.4. Yn debyg i bwerau pwyllgor Craffu, gall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod angen i aelodau a swyddogion yr awdurdod fod yn bresennol o'i flaen er mwyn ateb cwestiynau. Os oes angen i aelod neu swyddog fod yn bresennol, mae'n rhaid iddo/iddi ateb unrhyw gwestiynau oni bai bod y cwestiwn yn un y byddai hawl ganddo wrthod mewn llys. Gall y pwyllgor wahodd unigolion, cyrff neu sefydliadau eraill i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Mae'n rhaid i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr.
- 4.5. Mae busnes a rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor yn debygol o gynnwys y pynciau canlynol (nid yw hon yn rhestr gyflawn):
- Hyfforddiant a datblygu aelodau
 - Trefniadau cefnogi er mwyn i aelodau gyflawni eu rolau
 - Cefnogaeth ar gyfer swyddogaeth Graffu y Cyngor
 - Adolygu'r adnoddau sydd ar gael i aelodau (er enghraifft, llety a thechnoleg)
 - Mentrau, deddfwriaeth ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar faterion democratiaeth leol, gan gynnwys amrywiaeth, cydraddoldeb a chyfranogi
 - Tâl Aelodau

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r pwyllgor yn ymgymryd â dyletswyddau statudol sydd â'r nod o gryfhau democratiaeth leol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig, ac nid oes unrhyw oblygiadau cost.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad gwybodaeth hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Dim.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen Datganiad ar gyfer yr adroddiad gwybodaeth hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ni nodwyd unrhyw risgiau o'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) yw –

(a) darparu cefnogaeth a chyngor (ond gweler nodyn 1, isod)

- i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd;
- i bwyllgorau'r awdurdod ac aelodau'r pwyllgorau hynny;
- i unrhyw gyd-bwyllgor y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu, ac aelodau'r pwyllgor hwnnw;
- mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r awdurdod, i aelodau'r awdurdod, aelodau'r grŵp gweithredol a swyddogion;
- i bob aelod o'r awdurdod wrth ymgymryd â rôl aelod o'r awdurdod (ond gweler nodyn 2, isod);

(b) hyrwyddo rôl pwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r awdurdod;

(c) llunio adroddiadau ac argymhellion yn ymwneud â nifer a graddau'r staff sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, penodi a threfnu'r staff hynny, a'u rheoli'n briodol;

(ch) unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru.

[Nodiadau

1. mae'r swyddogaeth o ddarparu cyngor ynghlŷn â sut ddylid cyflawni swyddogaethau'r awdurdod, neu sut y dylent fod wedi eu cyflawni, yn berthnasol i gyngor yn ymwneud â swyddogaethau'r pwyllgorau trosolwg a chraffu a gwasanaethau democrataidd yn unig;

2. yn yr achos hwn, nid yw cyngor i aelod yn cynnwys cyngor mewn cysylltiad â'i rôl fel aelod gweithredol, ac nid yw'n cynnwys cyngor ynghlŷn â mater sy'n cael ei ystyried mewn cyfarfod, neu sydd i gael ei ystyried (ar wahân i gyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu neu bwyllgor gwasanaethau democrataidd.)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y cyfarfod	30 Medi 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Cynghorydd Julie Matthews / Steve Price
Awdur adroddiad	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Teitl	Gofal Personol a Diogelwch i Aelodau

1. Beth yw pwrpas yr adroddiad?

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am ofal personol a diogelwch ar gyfer aelodau etholedig lleol.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

- 2.1 Mae'r Pwyllgor yn fforwm priodol i drafod pryderon cyfredol yn ymwneud ag ymddygiadau bygythiol a gwenwynig sy'n effeithio ar ddemocratiaeth leol ac i dynnu sylw at argaeledd cyngor a chefnogaeth.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gwneud sylwadau ar y materion a godwyd ac yn cynnig arweiniad ar y ffocws ar gyfer sesiwn hyfforddi i aelodau yn y dyfodol ar ofal personol a diogelwch.

4. Manylion adroddiad

Diogelwch Personol

- 4.1. Dywedodd adroddiad gan y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau llywodraeth leol Mai 2022 yng Nghymru:

"Dywedodd cyfran nodedig o'r ymgeiswyr a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi profi rhyw fath o gam-drin neu fygwth. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn yn ymwneud â cham-drin geiriol neu ar-lein, a daeth mwyafrif yr achosion gan

aelodau'r cyhoedd. Cawsom hefyd adroddiadau o ymddygiad ymgeiswyr gwael gan yr heddlu. *Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r gymuned etholiadol ehangach i wneud yn siŵr ein bod yn deall yr hyn sy'n gyrru cam-drin a bygythiadau ymgeiswyr, ac i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys.*

4.2 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn argymhell bod aelodau'n ymwybodol o'r risgiau pan fydd, er enghraifft:

- Ymweld â phobl yn eu cartrefi
- Derbyn galwyr i gartref y cynghorydd
- Cynnal meddygfeydd
- Teithio, boed ar drafnidiaeth gyhoeddus neu breifat a phan yn unig
- Cyfathrebu ar-lein

4.3 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyfeirio'r adnoddau diogelwch personol canlynol ar gyfer aelodau. Mae cyfeiriadau llawn y wefan i'w gweld yn y troednodyn isod.

[Personal Safety guidance for Councillors \(Local Government Information Unit\)](#)

[Personal Safety Advice \(Susie Lamplugh Trust\)](#)

[Online Abuse Guidance for Councillors \(WLGA\)](#)

[Get Safe Online Guidance \(UK Government\)](#)

[Recognising the Terrorist Threat Guidance \(National Counter Terrorism Security Office\)](#)

4.4 Gall aelodau Sir Ddinbych godi pryderon diogelwch gyda thimau iechyd a diogelwch corfforaethol a gwasanaethau democrataidd y Cyngor neu'r Swyddog Monitro. Mae modd cysylltu â thimau plismona lleol gan ddefnyddio'r rhifau argyfwng priodol (999) neu nad ydynt yn argyfwng (101) neu drwy eu porth adrodd ar-lein mewn perthynas â phryderon neu adroddiadau o drosedd sy'n ymwneud â bygythiadau, cam-drin neu aflonyddu cynghorwyr.

<https://lgiu.org/publication/personal-safety-for-councillors-2/>

<https://www.suzylamplugh.org/Pages/Category/personal-safety-advice>

<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1504>

<https://www.getsafeonline.org/>

<https://www.gov.uk/government/publications/recognising-the-terrorist-threat/recognising-the-terrorist-threat>

Gwarineb mewn Bywyd Cyhoeddus

4.5 Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhan o raglen waith aml-sefydliadol o'r enw 'Civility in Public Life' gyda'r nod o hyrwyddo safonau da ar gyfer unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn disgwrs cyhoeddus a gwleidyddol. Mae Civility in Public Life hefyd yn ceisio deall maint ac effaith bygythiadau ac ymddygiad camdriniol ac i gynnig cefnogaeth i aelodau etholedig.

Cod Ymddygiad Aelodau

4.6 Mae gwasanaethu cynghorwyr yn gaeth i'r Cod Ymddygiad statudol, sy'n nodi safonau ymddygiad uchel gan gynnwys trin eraill gyda pharch ac ystyriaeth a gwahardd ymddygiad bwlio neu aflonyddu. Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion bod cynghorwyr wedi torri eu Cod Ymddygiad ac fe allai gyfeirio achosion at Bwyllgor Safonau'r Cyngor i gael eu clywed. Mae gan y Cyngor hefyd Brothocol Hunan-Reoleiddiol aelodau i eistedd ochr yn ochr â'r Cod Ymddygiad a datrys problemau na fydd efallai'n cyrraedd y trothwy i'w ymdrin â nhw fel achos o dorri'r Cod.

Hyfforddiant Gofal Personol a Diogelwch

4.7 Gofynnir am farn y Pwyllgor ar y cynnwys a'r trefniadau ar gyfer sesiwn hyfforddi aelodau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Does dim cyfraniad uniongyrchol i'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

<https://lgiu.org/publication/personal-safety-for-councillors-2/>

<https://www.suzylamplugh.org/Pages/Category/personal-safety-advice>

<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1504>

<https://www.getsafeonline.org/>

<https://www.gov.uk/government/publications/recognising-the-terrorist-threat/recognising-the-terrorist-threat>

6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd costau'r sesiwn hyfforddi aelodau yn cael eu darparu o fewn cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Llesiant?

7.1. Nid oes angen asesiad effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda Craffu ac eraill?

8.1. Dim.

9. Datganiad Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen Datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae digwyddiadau o drais tuag at aelodau etholedig neu ymgeiswyr ar gyfer swydd etholedig yn brin ond gall aelodau ddod yn ddioddefwyr camdriniaeth ysgrifenedig neu eiriol oherwydd eu proffiliau a'u rolau cyhoeddus. Mae argaeledd gwybodaeth a chefnogaeth a hyrwyddo gwarineb mewn bywyd cyhoeddus yn fesurau tuag at leihau'r risgiau.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad.

<https://lgiu.org/publication/personal-safety-for-councillors-2/>

<https://www.suzylamplugh.org/Pages/Category/personal-safety-advice>

<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1504>

<https://www.getsafeonline.org/>

<https://www.gov.uk/government/publications/recognising-the-terrorist-threat/recognising-the-terrorist-threat>

Cynllun Gwaith i'r Dyfodol Gwasanaethau Democrataidd

Cyfarfod		Eitem (Disgrifiad / Teitl)	Pwrpas yr Adroddiad	Awdur	Dyddiad Cyflwynwyd
24 Mawrth 2023	1	RhGD Gwasanaethau Democrataidd	I ystyried RhGD y Pwyllgor	Gwasanaethau Democrataidd	Eitem sefydlog
29 Medi 2023	1	RhGD Gwasanaethau Democrataidd	I ystyried RhGD y Pwyllgor	Gwasanaethau Democrataidd	Eitem sefydlog

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag